Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag adnabod gofynion cleientiaid gyda systemau darlledu a chyfryngau.

Mae'r safon hon yn berthnasol i amrywiaeth o systemau darlledu a chyfryngau gan gynnwys gweithrediad stiwdio, darlledu allanol, ôl-gynhyrchu, dosbarthiad a darllediad. Gall cleientiaid fod yn rhai mewnol neu allanol i'r sefydliad rydych chi'n gweithio iddo.

Mae'r safon hon ar gyfer peirianwyr systemau darlledu a chyfryngau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cael gafael ar wybodaeth am ofynion y cleient ar gyfer systemau darlledu a chyfryngau
2. cadarnhau amcanion y cleient ar gyfer systemau darlledu a chyfryngau gyda'r bobl berthnasol
3. penderfynu a ydy gofynion gweithredol, ymarferol, cynaliadwyedd, amgylcheddol ac ariannol y cleient yn ddichonol
4. sefydlu nodweddion unigryw neu benodol sydd angen ystyriaeth benodol
5. penderfynu ar ofynion cysylltedd, ergonomeg, ansawdd ac iechyd a diogelwch gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol
6. gweithio o fewn rhagofalon diogelwch penodol wrth weithio gydag offer, meddalwedd a systemau darlledu
7. cytuno ar ofynion a phrotocolau gweithredu sy'n gysylltiedig â systemau, meddalwedd ac offer darlledu a chyfryngau gan gynnwys pwy all eu defnyddio
8. sefydlu a chytuno ar gylch gorchwyl eglur gyda chleientiaid i asesu a ydy amcanion wedi'u cyflawni
9. cofnodi gofynion mewn systemau gwybodaeth i'w defnyddio yn y dyfodol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. diben, manteision, cyfyngiadau a risgiau'r offer a meddalwedd sydd eu hangen ar gyfer systemau darlledu a chyfryngau
2. y gwahaniaeth rhwng systemau sy'n seiliedig ar y cwmwl a systemau ar leoliad
3. y diben a'r protocoliau sy'n gysylltiedig â chyfeirio gan ddefnyddio IP
4. diben a manteision gwahanol brotocoliau a systemau ffrydio
5. egwyddorion dyluniad, pensaernïaeth, datblygiad a chynhaliaeth rhwydweithiau
6. sut i gysylltu systemau ac offer darlledu a chyfryngau gyda systemau rhwydwaith
7. prosesau'r sefydliad ar gyfer sicrhau diogelwch rhwydwaith a diogelwch ymarferol data a systemau
8. gofynion technegol Ansawdd Gwasanaeth sy'n cael effaith ar eich gwaith
9. rhagofalon a systemau gweithio diogel ac ar eich pen eich hun ar gyfer gweithio gydag erialau, foltedd uchel, byrddau trydan, byrddau switsh a chyflenwadau trydan di-dor
10. y prosesau gweithredol a thechnegol gaiff eu defnyddio gyda systemau darlledu a chyfryngau
11. y gwahanol ddulliau sydd angen eu mabwysiadu wrth weithio gyda chleientiaid, gweithredwyr, staff cynhyrchu, staff technegol, trydydd barti, darparwyr gwasanaeth a phobl berthnasol eraill
12. y gweithdrefnau ar gyfer cysylltu gydag adran neu sefydliad y cleient
13. y mathau o nodweddion dylid eu hystyried yn unigryw neu benodol
14. sut i gadarnhau gofynion cleient, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â gweithrediad, dichonoldeb, cyfleuster, cyllideb, manyleb dechnegol a lleoliad
15. systemau'r sefydliad ar gyfer cofnodi gwybodaeth gan gynnwys gofynion y cleient, gofynion y broses, manylion technegol, nodweddion unigryw a newidiadau cytunedig
16. meini prawf gwerthuso mae modd ei ddefnyddio ar gyfer **gwahanol fathau o ddyluniadau systemau darlledu**
17. rheoliadau, canllawiau, gweithdrefnau a systemau sefydliad perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a darlledu a sut i gael gwybodaeth amdanynt

Cwmpas/Ystod

gwahanol fathau o ddyluniadau systemau darlledu gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â:

1. natur ymarferol
2. perfformiad
3. cost
4. ansawdd
5. technoleg
6. ymarferoldeb
7. amserlen weithredu
8. rhwyddineb gweithredu
9. rhwyddineb a chost cynnal a chadw
10. hyd bywyd/ gallu i uwchraddio
11. mynediad i weithredwyr
12. gofynion diogelwch
13. cydymffurfio gyda safonau sefydliad, diwydiant ac iechyd a diogelwch
14. cynaliadwyedd

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2026
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ScreenSkills
RCU gwreiddiol	SKSBE1
Galwedigaethau perthnasol	Peiriannydd Darlledu , Peiriannydd Darlledu Allanol , Peiriannydd Stiwdio , Peiriannydd Prosiect, Peiriannydd Ôl-gynhyrchu, Peiriannydd Lluniau, Peiriannydd Cynnal a Chadw Darlledu, Peiriannydd Darllediad
Cyfres/Set	Peirianneg Systemau Darlledu a Chyfryngau
Geiriau Allweddol	darlledu; peirianneg; technegol; cynhyrchiad; gofynion;